CYMDEITHAS BOB OWEN

Elusen Gofrestredig Rhif 507948

# Y Casglwr

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd, Cibyn, Caernarfon, Gwynedd.

* * *

**CYMDEITHAS BOB OWEN**

Tâl aelodaeth:
£5 y flwyddyn (Ionawr-Rhagfyr) i'w anfon at y Trysorydd

**SWYDDOGION**

*Llywydd Anrhydeddus*
John Roberts Williams

*Cadeirydd*
Dr Brynley F. Roberts
Hengwrt, Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth, Dyfed SY23 1HB
(0970 623577)

*Ysgrifennydd*
Gwyn Tudur Davies
11 Maes yr Afon, Aberystwyth, Dyfed SY23 1PL
(0970 623174)

*Trysorydd*
Miss Anne K. Till
26 Maes Ceiro, Bow Street, Dyfed SY24 5BG
(0970 820235)

*Golygydd*
Richard H. Lewis
40 Maes Ceiro, Bow Street, Dyfed SY24 5BG
(0970) 828102

*Pwyllgor Gwaith y Gymdeithas*
Y Swyddogion
Dr Huw Edwards
Dr Rhidian Griffiths
Dr R. Geraint Gruffydd
Dafydd Glyn Lloyd Hughes
Dafydd Jones
Huw Ceiriog Jones
Gwilym Tudur
Y Parchg Dafydd Wyn Wiliam
Huw Williams

* * *

Cyhoeddir *Y Casglwr* gyda chymorth ariannol Cyngor y Celfyddydau

* * *

**RHIFYN NESAF**

**Dylid anfon cyfraniadau at y Golygydd erbyn 2 GORFFENNAF fan bellaf, os gwelwch yn dda.**

Gwasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon Gwynedd
Argraffwyr a Chyhoeddwyr
Ffôn: (0286) 674486

# Y Berl Briodas, eto

## gan GUTO ROBERTS

Yn sgîl cyhoeddi darlun o 'Y Berl Briodas' o waith Robert Hughes Uwchlaw'rffynnon yn y rhifyn diwethaf o *Y Casglwr* daeth llythyr oddi wrth John Hughes, 3 Ystrad Caron, Tregaron, yn tynnu ein sylw — ynghyd â thoriadau — at hanes yr amgylchiad o ddathlu'r 'Berl Briodas' yng Nghlynnog Fawr, a ymddangosodd yn *Y Genedl Gymreig* ar Fai y 9fed, 1888.

Dywed John Hughes i'r llun o'r hen gwpwl ymddangos 'fel dau wyneb cyfarwydd' iddo ef pan agorodd *Y Casglwr* a chofiodd iddo ddod o hyd i doriadau o'r *Genedl* mewn drôr dresel yng Nglan'rafon Hen, Gyrn Goch, Clynnog Fawr — cartref ei dad.

Mae yn y rhifyn hwnnw — yn ogystal â hanes yr achlysur — lun o Hugh a Jane Jones ochr yn ochr — yn ddau lun ar wahân — heb ddim ond cefndir llwyd tu draw i'r ddwy gadair freichiau. 'Does dim golwg o'r 'lle tân a'r tecell' na'r 'ford gron a'r llestri te' a welir yng ngwaith Robert Hughes a chawn mai cap crwn ac nid het sydd gan Jane Jones.

Mae 'Gohebydd Arbennig' *Y Genedl* wedi bod yn hael hyd at gymryd dwy golofn a hanner o'r papur i roi lluniau a hanes y sgwrs a gafodd â'r 'hen bâr' ac edrydd mai'r 'bardd hyfwyn Hywel Tudur' wnaeth ei 'hebrwng i'r tŷ' a'i gyflwyno i'r 'hen batriarch a'i briod'.

Ymddengys mai crydd oedd Hugh Jones a phan ofynnodd Gohebydd *Y Genedl*:

'Ydych chwi yn meddwl mynd ati i weithio eto?'

'Dwn i ddim wir be' 'na i,' oedd yr ateb ac ni ellid disgwyl ateb amgenach gan un a oedd mor agos i'w gant oed.

Sylw Jane Jones (a oedd yn ôl y stori yn gant oed) oedd:

'Yr ydw i wedi mynd rŵan, eistedd ydi y mheth i. Aiff 'y nghalon i i guro mewn munud os cerdda' i dipyn.'

Pan ofynnwyd a fuont yn yr ysgol:

'Mi fûm i yn yr ysgol gyda Mr Richardson (Evan Richardson) yng Nghaernarfon am chwarter beth bynnag,' oedd geiriau Hugh Jones; ac:

'Mi fûm innau yn yr ysgol yn Plasmawr (hen adeilad oedd yn Stryd Red Lion, Caernarfon) am ryw bedwar mis,' meddai hithau. 'Ac yr oedd yno ryw hogyn mawr â chrwth ar 'i gefn o yn dysgu y plant i sgrifennu. Mi ddown adra yn ben-noeth pan ddoi hiraeth arna i. 'Doedd na ddim byd i gario yr amser hwnnw — na coach, na chadar, na dim, ond traed.'

'Sut ydach chi yn gweld y byd yn awr?' oedd cwestiwn nesaf y gohebydd i'r hen wraig.

'Diar annwyl, mae'r byd wedi newid yn ddwbl; ac mi fydd ryw alterasiwn eto . . . Mi fu gen i grinoline, ac yr oedd yn ddigon hwylus. Ond dyna oedd yr adeg honno, clocsia, a bacsia . . . Bacsia oedd coes hosan, a tafod (fydde ni yn ei alw fo) ar y cefn, a dolan ar y bys nesa' i'r bawd.'

Ychwanegodd:

'Oedd ne'n diar . . . ddigon o sana. Mi awn efo bacsia i'r dre (Caernarfon) ac yn ôl.'

Ys gwn i beth oedd sail gosodiad Jane Jones pan aethpwyd i sôn am ddiwrnod lladd mochyn a phwy a fyddai'n cael y pen ac iddi ddweud mai 'un Morris' gan ychwanegu:

'Yr oedd yn rhaid iddo fo gael pen y mochyn i fynd i'r nefoedd; yr oedd wedi mynd yn di-total.'

Gwelsom mai'r Parchedig Hywel Roberts (Hywel Tudur) a aeth â'r gohebydd i dŷ 'yr hen bâr' ond er mai rhifyn Mai 9 o'r *Genedl Gymreig* 1888 sy'n cofnodi'r hanes ceir bod Hywel Tudur wedi cyfrannu i rifynnau Ebrill 11, Ebrill 18, Ebrill 25 a Mai 2 i sôn am 'Y Berl Briodas yng Nghlynnog-Fawr-yn-Arfon' ac yn yr olaf o'r pedwar rhifyn mae'n ailadrodd mai ar Ebrill 19, 1813 y priodwyd y ddau gan roi'r cofnod a ganlyn o 'Lyfr Cronicl Eglwys Sant Beuno': *Hugh Jones, bachelor, Jane Pritchard, spinster, were married April 19, 1813'.*

Fel y *Diamond Wedding* y cyfeiria Hywel Tudur at y briodas gan gofnodi hefyd 'fod ychydig o gamgymeriad wedi ei wneyd gyda golwg ar oedran y briodasferch , Sian Jones' ac mai fel a ganlyn y ceir y *certificate* yn y 'Llyfr Cronicl': *Jane, daughter of Richard Jones, by Mary, his wife, was born December 21, 1789, and christened, December 27.'*

Nid dathlu oedran yr hen bâr a wneid fodd bynnag ond y 75 o flwyddi priodasol ac fe wnaed hynny drwy bennill a chân. Dyna'r Parchedig R. R. Morris, Caernarfon (R. ap Gwilym — yn ôl *Y Genedl* ynteu Hywel Tudur?) yn llunio cerdd o un pennill ar ddeg o wyth llinell yr un ac fe gaed 'anerchiad awenyddol pert gan Mordaf' mewn cyfarfod yn Ysgoldy Ebeneser.

Robert Hughes, Uwchlaw'r-ffynnon oedd y Cadeirydd a Hywel Tudur yn arwain. 'Doedd 'yr hen bâr' ddim yn y cyfarfod hwnnw fin nos ond wedi bod, er hynny, yn y pnawn pryd y cludwyd y ddau yno 'yng ngherbyd pedwar olwyn *(phaeton)* John Evans Pen-lôn' yn cael ei dynnu efo rhaff ar hyd y pentref. Y ddau arall yn y cerbyd oedd Richard Jones, eu mab, a oedd yn 73 oed a'u cefnder Shôn Hughes, a oedd yn 77 oed.

Canodd Jane Jones amryw weithiau ar yr 'hen fesurau a rhai lled ddiweddar' yn ystod y pnawn.

Mae'n ddiddorol sylwi mai'r Mri Wood a Beaumont, o Wilmslow, Sir Gaer, a fu'n aros yn Nhyddyn Hen, Gyrn Goch, oedd yn dwyn y gost. 'Roeddent wedi anfon at 'Mr Roberts (Tyddyn Hen) yn cynnig "te" cyhoeddus i bawb o aelodau Ysgol Sabbothol capel Ebenezer er dathlu y Berl Briodas'.

'Roedd Mr Wynn, Glynllifon — mab yr Arglwydd Newborough — wedi dod i edrych amdanynt ac 'roedd o'n 'ŵr ifanc smart — dyn tal, cyn daled â'i dad er yn lystiach a choesau a meilyngau siapus a del iawn' yn ôl Hugh Jones, ac aeth ati i ddisgrifio sut 'roedd Jane ac yntau wedi eu gwisgo ar ddiwrnod eu priodas 75 o flynyddoedd ynghynt:

'Côt labed fain a chlos pen glin, efo botymau a bwcl yn cau y godreu am y ben-glin a ruban glas yn gwlwm' oedd ganddo ef, a'r 'bais a'r bedgwn' a'i 'het beaver, ar y cap crwn oedd wedi ei gwiltio ar y talcen ac arno gnotiau mawrion o ruban coch,' oedd gan Jane Jones.

## Gair gan y Cadeirydd

Nid pawb sy'n gwybod fod gan Gymdeithas Bob Owen bwyllgor gwaith! Fe gyfarfu ddwy waith yn ystod 1993 am fod amgylchiadau'n gwasgu arnom. Collwyd yn frawychus o sydyn ein Cadeirydd, Tecwyn Lloyd, ac ymddeolodd ein Golygydd, John Roberts Williams. Gwnaed nifer o awgrymiadau yng nghyfarfodydd y pwyllgor a byddwn yn eu gosod ar waith mor fuan ag y bo modd.

Un penderfyniad yw y dylem gyfarfod ar ryw achlysur yn ychwanegol at yr Eisteddfod Genedlaethol. Felly, yn ogystal â chynnal y ddarlith flynyddol ar faes yr Eisteddfod, yr ydym am fentro cynnal Ysgol Undydd yn flynyddol mewn gwahanol leoedd a chyfuno honno â'r Cyfarfod Blynyddol o'r Gymdeithas. Bydd hynny'n rhoi cyfle inni i dreulio mwy o amser i gyfnewid syniadau am weithgarwch y Gymdeithas, megis paratoi cyhoeddiadau, symbylu gweithgarwch lleol, ac ati.

Bydd *Y Casglwr*, dan olygyddiaeth Richard Lewis, yn dal i ymddangos yn gyson, er efallai mewn ffurf ychydig yn wahanol. Bydd ef yn falch i dderbyn llif o gyfraniadau gennych. Yr ydym yn parhau i ddibynnu bron yn llwyr ar deyrngarwch yr aelodau a gorau po fwyaf o rai newydd y gallwn eu tynnu i ymuno â'r Gymdeithas, fel y gall barhau i ffynnu fel y mae hyd yn hyn.

BRYNLEY F. ROBERTS
*Cadeirydd*